

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) >

Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu'r system ADY: gwneud y Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau ISPI")

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu'r system ADY: gwneud y Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau ISPI")

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd
gyntaf:
30 Tachwedd 2020

Diweddarwyd
ddiwethaf:
30 Tachwedd 2020

Ar 29 Hydref, gwnes **Orchymyn** i gychwyn gwahanol bwerau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018"), gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer sefydlu rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol fel yr amlinellwyd yn Adran 56 o Ddeddf 2018. Bydd y rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol yn cychwyn ar 4 Ionawr 2021, ac mae'n dangos y bwriad, fel y nodir yn y Ddeddf, i'r dyletswyddau gael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [@](#)

Heddiw, rwyf wedi gosod gerbron y Senedd y '**Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020**' ("Rheoliadau ISPI"). Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o Sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr ac mae'r rheoliadau hyn ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni i fod ar y rhestr. Dim ond mewn sefydliad sydd ar y rhestr y caniateir i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc ag ADY.

Bydd cychwyn y rhestr o Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol yn rhoi amser i randdeiliaid ystyried eu hamgylchiadau a gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr; hefyd mae'n darparu amser i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddechrau cynllunio ar gyfer derbyn y dysgwyr hyn yn y dyfodol. Bydd y Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol a gafodd eu cymeradwyo a'u rhoi ar y rhestr ar gael i i awdurdodau lleol pan fyddant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau lleoliadau arbenigol ôl-16 ar gyfer pobl ifanc mewn Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd gyntaf

30 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

30 Tachwedd 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Cysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau leithoedd amgen](#)